# CYNGOR SIR PENFRO

## Ymateb i Ymchwiliad gan Bwyllgor Cyllid Senedd Cymru

## Trefniadau Ariannu ar ôl gadael yr UE

### Cyflwyniad

1. Mae Cyngor Sir Penfro yn falch o gael y cyfle i ymateb i'r ymchwiliad hwn, sy'n amlwg yn fater o ddiddordeb mawr i'r cyngor ac i'r bobl y mae'n eu gwasanaethu. Mae'r cyngor yn darparu gwasanaethau cyhoeddus i oddeutu 126,000 o bobl sy'n byw yn Sir Benfro, a llawer mwy sy'n ymweld â'n sir. Mae gwasanaethau ein cyngor wedi cael hwb gan fuddsoddiad yr UE o dros £100m ers 1996[1] ac mae hyn wedi caniatáu inni ddarparu seilwaith busnes a thwristiaeth, adfywio ffisegol, lleihau gwastraff ac ailgylchu, ynghyd â llawer o gyfleoedd addysg a hyfforddiant, a mentrau gwrthdlodi.

2. Yn ogystal â chyllid yr UE a lifodd trwy Gyngor Sir Penfro ei hun, mae Sir Benfro wedi elwa ar raglenni a phrosiectau a ariennir gan yr UE ac sy'n cael eu rhedeg gan lawer o sefydliadau eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, colegau addysg bellach, prifysgolion, y trydydd sector, a'r sector preifat. Mae enghreifftiau yn cynnwys rhaglenni cymorth busnes, prentisiaethau, marchnata twristiaeth a phrosiectau amgylcheddol. Mae Sir Benfro hefyd wedi elwa ar brosiectau trawsffiniol gydag Iwerddon a phrosiectau trawswladol ehangach, megis mentrau i wella ymateb traethlin y sir i achosion o lygredd wrth rannu ein profiad â rhanbarthau a gwledydd eraill yr UE.

3. O ystyried y lefel uchel hanesyddol hon o fuddsoddiad gan yr UE yn y sir, mae Cyngor Sir Penfro wedi bod yn bryderus y dylai'r addewid o "ddim ceiniog yn llai" o ganlyniad i Brexit gael ei wireddu'n ymarferol.

### Cynnydd o ran sefydlu a darparu cronfeydd cyfnewid ar gyfer cronfeydd strwythurol yr UE, gan gynnwys Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, Cronfa Adnewyddu Cymunedol y DU a Chronfa Codi'r Gwastad.

4. Mae'r cynnydd o ran cyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi bod yn rhy araf. Cyhoeddwyd y Prosbectws lai nag wythnos cyn i'r ymateb hwn gael ei ddrafftio. Mae proses ddatblygu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi bod yn aneglur o ran yr egwyddorion ymgysylltu ac ymgynghori sy'n allweddol i sylfaen gysyniadol yr agenda 'Codi'r Gwastad'.

5. Fel rhagflaenydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, roedd Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn syniad gwael ac i raddau helaeth mae'n anodd gweld sut y gall y 'gwersi a ddysgwyd' o'r Gronfa Adfywio Cymunedol ddylanwadu ar siâp y Gronfa Ffyniant Gyffredin, yn enwedig o ystyried bod y gwaith o weithredu'r gronfa gyntaf a'r gwaith o ddylunio'r ail wedi gorgyffwrdd. Mae'n ymddangos mai'r unig wersi a ddysgwyd yw y cydnabuwyd bod natur gystadleuol y Gronfa Adfywio Cymunedol yn gynhenid wastraffus. Mae teimlad o ryddhad bod y gofyniad hwn wedi'i ddileu o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Roedd yr amserlen dynn iawn ar gyfer

[1] Dadansoddiad ar gael ar gais.

gwneud penderfyniadau ac ar gyfer gweithredu (hyd nes y caniatawyd estyniad yn ddiweddar) wedi cyfrannu at yr ymdeimlad bod y Gronfa Adfywio Cymunedol yn enghraifft o sut i beidio â rheoli rhaglen adfywio effeithiol.

6. Dylid deall nad yw Cronfa Codi'r Gwastad yn cymryd lle Cronfeydd Strwythurol yr UE. Yn hytrach, mae'n swm canlyniadol Barnett sy'n deillio o Gronfa Trefi Lloegr, ac yn lle bod ar gael i Lywodraeth Cymru, mae'n cael ei gyfeirio drwy fecanwaith bidio tuag at awdurdodau lleol Cymru.

7. Unwaith eto, mae natur gystadleuol tymor byr Cronfa Codi'r Gwastad yn mynd yn groes i ddamcaniaeth ac arferion 'adfywio da'. Nid yw'n glir beth oedd diben defnyddio ffiniau seneddol fel yr ôl troed gofodol ar gyfer cyllid Cronfa Codi'r Gwastad, o ystyried bod y rhan fwyaf o etholaethau'n torri ar draws meysydd economaidd swyddogaethol.

**Y modd y mae'r cyllid arfaethedig ar gyfer Cymru a'r cyllid a gafwyd yn sgil cyfranogiad parhaus y DU yn rhaglenni'r UE, yn cymharu â'r cyllid a gafwyd tra'r oedd y DU yn aelod o'r UE.**

8. Mae'r rhan fwyaf o sylwebwyr yn cytuno bod lefel y cyllid a gyhoeddwyd hyd yn hyn yn llawer is na'r hyn y byddai Cymru wedi'i dderbyn pe bai'r DU wedi aros yn aelod o'r UE. Er bod Prosbectws y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn honni ei fod yn "targedu cyllid lle mae ei angen fwyaf" (Prosbectws y Gronfa Ffyniant Gyffredin adran 1.1), nid yw'n ymddangos bod dull targedu gofodol arbennig o gryf yng Nghymru, gyda 40% yn cael ei ddosbarthu fesul pen (Prosbectws y Gronfa Ffyniant Gyffredin adran 3.2). Bydd yn rhaid aros i weld a fydd Cronfa Codi'r Gwastad, mewn ardaloedd megis Sir Benfro a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, yn ymuno â'r rhestr o bolisïau, rhaglenni a mentrau sy'n cyflawni llai nag y maent yn ei addo.

9. Mae'r gyllideb ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ceisio ystyried cyllidebau Cronfeydd Strwythurol yr UE, sef y cyllid o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop. Fodd bynnag, nid yw'n cydnabod bod cymorth i fusnesau nad ydynt yn ffermydd a chymunedau mewn ardaloedd gwledig, a ddarparwyd yn flaenorol gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, hefyd wedi'i golli o ganlyniad i adael yr UE. Croesewir y cyhoeddiadau diweddaraf am gymorth gwledig gan Lywodraeth Cymru, ond dim ond ein diwydiannau amaethyddol a choedwigaeth sy'n elwa arnynt ac nid yr economi neu'r gymdeithas wledig ehangach.

10. Nid yw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ychwaith yn disodli Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, a roddodd gymorth gwerthfawr i gymunedau pysgota a'r diwydiant pysgota yn Sir Benfro ac o gwmpas Cymru. Dylid disodli'r cronfeydd hyn hefyd.

11. Mae cyllideb y Gronfa Ffyniant Gyffredin hefyd yn llai nag y dylai fod oherwydd gwrthbwyso arian yr UE o raglenni 2014-20 a dderbyniwyd ar ôl Brexit. Esbonnir y pwynt hwn yn fanylach ym mharagraff 14.

**Y mecanweithiau a'r strwythurau sy'n cael eu sefydlu i weinyddu'r cronfeydd hynny yng Nghymru, rolau'r rheini sy'n gysylltiedig, yn enwedig Llywodraethau Cymru a'r DU, a'r effaith ddilynol ar drefniadau atebolrwydd.**

12. Mae'r mecanweithiau a'r strwythurau ar gyfer cyflawni'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn wahanol iawn i'r rhai sydd wedi parhau hyd yn hyn. Gan fod y gwaith o addasu strwythurau presennol neu sefydlu rhai newydd megis dechrau, yn dilyn cyhoeddi Prosbectws y Gronfa Ffyniant Gyffredin yr wythnos cyn ysgrifennu'r ymateb hwn, mae'n anodd gwneud sylwadau manwl iawn. Rhagwelir y gallai anawsterau godi wrth gysoni atebolrwydd a chyflawniad lleol, gyda chyrff arweiniol a chynlluniau rhanbarthol ac y gallai'r rhain atal effeithiolrwydd y rhaglen. Nid yw'r amserlen fer a ganiateir ar gyfer gweithio drwy'r materion cymhleth hyn yn syth ar ôl etholiadau llywodraeth leol, yn ffafriol i ddod o hyd i ddatrysiadau ymarferol.

**Swm y cyllid etifeddol y mae disgwyl i Gymru ei gael ar ôl i'r DU adael yr UE ac sy'n gysylltiedig â rhaglenni cronfeydd strwythurol yr UE.**

13. Nid yw'n glir inni beth yw ystyr "cyllid etifeddol" yn y cyd-destun hwn. Yr unig gyllid a gawn sy'n gysylltiedig â rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yw cyllid sy'n rhan o'r rhaglenni hynny. Nid yw'n gyllid newydd nac yn gyllid a gafodd ei etifeddu yn sgil y rhaglenni hynny. Mae Cytundeb Ymadael yr UE yn nodi y caniateir i raglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer 2014-2020 barhau tan eu diwedd naturiol yn 2023, fel y darperir ar ei gyfer gan reol N+3. Mae'r rheol hon yn caniatáu i gyllideb y Cronfeydd Strwythurol am flwyddyn gael ei gwario o fewn y tair blynedd nesaf. Felly mae'n rhaid gwario'r gyllideb ar gyfer 2020 erbyn 2023. Nid yw hyn yn wahanol i'r sefyllfa a fyddai wedi bodoli pe na bai'r DU wedi gadael yr UE.

14. Fodd bynnag, pe bai'r DU wedi aros yn yr UE, yn ystod y cyfnod 2021-2023, byddai Cymru (a Sir Benfro) wedi cael cyllid o raglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE 2021-2028 yn ychwanegol at y cyllidebau o ddiwedd rhaglenni'r UE 2014-2020. Nid yw'r gorgyffwrdd hwn yn cael ei gyfrif yn nyraniadau Llywodraeth y DU o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. I'r gwrthwyneb, mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi'i lleihau i "wrthbwyso" balans y cronfeydd o raglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-2020. Credwn y dylid adfer y cyllid hwn, a ddylai ddod i Gymru yn gwbl briodol.